**Yr Ail Gynulliad (12)**

**Dydd Mercher, 2ail Gorffennaf 2003**

# Pleidleisiau A Thrafodion

**Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm**

**2.00pm**
**Etholiadau i'r Pwyllgorau Rhanbarth**
**NDM1521 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 61(5)b o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 10.3, yn ethol aelodau rhanbarthol a ganlyn y Cynulliad:

Eleanor Burnham
Mark Isherwood
Janet Ryder
Brynle Williams

ar Bwyllgor Rhanbarth y Gogledd.

**NDM1522 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 61(5)b o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 10.3, yn ethol aelodau rhanbarthol a ganlyn y Cynulliad:

Nicholas Bourne
Glyn Davies
Lisa Francis
Helen Mary Jones

ar Bwyllgor Rhanbarth y Canolbarth.

**NDM1523 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 61(5)b o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 10.3, yn ethol aelodau rhanbarthol a ganlyn y Cynulliad:

Nicholas Bourne
Peter Black

Alun Cairns
Glyn Davies
Janet Davies
Lisa Francis
Helen Mary Jones
Dai Lloyd

ar Bwyllgor Rhanbarth y De-orllewin

**NDM1524 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag adran 61(5)b o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, a Rheol Sefydlog 10.3, yn ethol aelodau rhanbarthol a ganlyn y Cynulliad:

Peter Black
Alun Cairns
Janet Davies
Jocelyn Davies
William Graham
Michael German
Laura Ann Jones
Dai Lloyd
David Melding
Jonathan Morgan
Owen John Thomas
Leanne Wood

ar Bwyllgor Rhanbarth y De-Ddwyrain.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig,**
O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44
**Derbyniwyd y Cynnig**

**2.01pm**
**Cynnig i Ohirio Rheol Sefydlog 6.12**
**NDM1545 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 34.4, yn cytuno i ohirio Rheol Sefydlog 6.12 fel bod modd i'r cynnig heb ddyddiad trafod - NNDM1535 - a gyflwynwyd ar 1 Gorffennaf 2003, gael ei ddadlau yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 2 Gorffennaf 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig,**
O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd y Cynnig**

**2.01pm**
**Etholiadau i'r Pwyllgor Archwilio Cyhoeddus (Cymru)**
**NNDM1535 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol gan weithredu o dan Reol Sefydlog 8.1, yn ethol yr aelodau a ganlyn i'r Pwyllgor Archwilio Cyhoeddus (Cymru):

Leighton Andrews (Llafur)
Ann Jones (Llafur)
Janet Davies (Plaid Cymru)
Alun Cairns (Ceidwadwyr)
Mick Bates (Democratiaid Rhyddfrydol)

ac yn ethol Janet Davies (Plaid Cymru) yn Gadeirydd ar y Pwyllgor.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig,**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y Cynnig**

**2.02pm**
**Etholiad i'r pwyllgor *ad hoc* ar y Mesur Archwilio (Cymru) - *Ni gynnigwyd y cyynig.***
**NDM1525 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn unol â Rheol Sefydlog 8.3, yn ethol yr aelodau canlynol ar y Pwyllgor Archwilio Cyhoeddus (Cymru):

Leighton Andrews (Llafur)
Janice Gregory (Llafur)
Janet Davies (Plaid Cymru)
Alun Cairns (Ceidwadwyr)
Mick Bates (Democratiaid Rhyddfrydol)

ac yn ethol Janet Davies (Plaid Cymru) i fod yn gadeirydd y pwyllgor.

**2.02pm**
**Cwestiynau i Andrew Davies, Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth**
Gofynnwyd y 6 cwestiwn cyntaf.

**2.27pm**
**Cwestiynau i Edwina Hart, Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio**
Gofynnwyd y 7 cwestiwn cyntaf.

**2.45pm**
**Datganiad gan Carwyn Jones, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn**

**Gwlad : CAP Reform negotiations**

**3.17pm**
**Cododd Kirsty Williams pwynt o drefn ar ofynion Rheol Sefydlog 29.**
**Cododd Leighton Andrews pwynt o drefn ar atebion gan CCNC i gwestiynau gan Aelodau.**

**3.28pm**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi), Porthiant (Gorfodi) a Phorthiant (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2003**
**NDM1526 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddorion Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi), Porthiant (Gorfodi) a Phorthiant (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003.

**NDM1527 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried:
Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5 mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Porthiant (Samplu a Dadansoddi), Porthiant (Gorfodi) a Phorthiant (Sefydliadau a Chyfryngwyr) (Diwygio) (Cymru) 2003 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Mehefin 2003; ac sydd

2. Yn cymeradwyo:
Gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003 a'r Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Mehefin 2003.

Cliciwch yma am y gorchymyn drafft *(Nid oes fersiwn Gymraeg ar gael)*
Cliciwch yma am yr Arfarniad Rheoliadol
Cliciwch yma am Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig i gymeradwyo egwyddor y Cynnig,**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y Cynnig**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig,**
O blaid 50; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y Cynnig**

**3.46pm**
**Dadl ar gaffael cynnyrch o Gymru yn y sector cyhoeddus**
**NDM1528 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu’r cydweithio sy’n digwydd rhwng timau Menter Gaffael Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru i edrych ar fesurau i gryfhau’r cyflenwad bwyd Cymreig lleol i’r sector cyhoeddus;

2. Yn croesawu’r camau a gymerwyd i helpu cynhyrchwyr bwyd bach a chanolig i ennill busnes lleol yn y sector cyhoeddus;

3. Yn cefnogi datblygiad prosiectau peilot i brofi’r mesurau hyn ac yn nodi y bydd y Gweinidog yn adrodd yn ôl i’r Cynulliad Cenedlaethol.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

**(1) & (2)**
**(3), (4) & (5)**
**(6) & (7)**

**Gwelliant 1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Dileu pwynt 2 ac ychwanegu:

'Yn nodi â phryder nad oes camau wedi'u cymryd i helpu cynhyrchwyr bwyd bach a chanolig yng Nghymru'

**Gwelliant 2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu pwynt 2 a rhoi'r pwynt a ganlyn yn ei le:

'Yn galw ar y Llywodraeth i roi rhagor o gefnogaeth i helpu cynhyrchwyr bwyd bach a chanolig i ennill busnes lleol yn y sector cyhoeddus.'

**Gwelliant 3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Rhoi pwynt 3 newydd a newid y rhifau'n unol â hynny

'Yn galw ar y Llwyodraeth i bennu safonau caffael a fydd yn ffafrio cynnyrch ffres o safon uchel sydd wedi'i gynhyrchu'n lleol.'

**Gwelliant 4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Rhoi pwynt 3 newydd a newid y rhifau'n unol â hynny:

'Yn galw ar y Llywodraeth i ddatblygu seilwaith i sicrhau cadwyni cyflenwi lleol.'

**Gwelliant 5. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ym mhwynt 3 ar ôl 'Cynulliad Cenedlaethol', ychwanegu 'ymhen 6 mis'.

**Gwelliant 6. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar y Gweinidog i ystyried ei gwneud yn ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad ac awdurdodau lleol i roi adroddiad blynyddol ar faint o gynnyrch lleol y maent wedi'i gaffael.'

**Gwelliant 7. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt bwled newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod bod caffael bwyd lleol yn y sector cyhoeddus yn ffordd allweddol o gefnogi ffermydd teuluol bach sydd mor amlwg yn y sector amaethyddol yng Nghymru.'

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:**
O blaid 10; Ymatal 10; Yn erbyn 36; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5:**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 6:**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56

**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 7:**
O blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig:**
O blaid 56; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 56
**Derbyniwyd y Cynnig**

**4.29pm**
**Dadl ar gynigion i wella diogelwch ar y ffyrdd ger ysgolion**
**NDM1529 Karen Sinclair (De Clwyd)**
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r gwaith o wella diogelwch ar y ffyrdd ger ysgolion, ac y mae'n croesawu barn yr Aelodau ar fwrw ati â'r gwaith hwn trwy bartneriaethau'r Fforwm Diogelwch ar y Ffyrdd yng Nghymru ac ar nodau ac amcanion y Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru.

*Gellir gweld y Strategaeth Diogelwch ar y Ffyrdd i Gymru ar y Rhyngrwyd yn:*
*http://www.wales.gov.uk/subitransport/content/road-safety-e.htm*
*http://www.cymru.gov.uk/subitransport/content/road-safety-w.htm*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol:*

**Gwelliant 1. Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i graffu ar brosiectau i wella diogelwch ar y ffyrdd ar y rhwydwaith ffyrdd lleol, a enwebwyd gan yr awdurdodau lleol ac a ariennir drwy grantiau penodol gan y Cynulliad, cyn dyrannu arian.'

**Gwelliant 2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i annog awdurdodau lleol i ddefnyddio i'r eithaf fesurau arafu traffig o amgylch mynedfeydd ysgolion.'

**Gwelliant 3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cydnabod bod angen gwella ymhellach, yn arbennig o ran estyn y rhaglen Llwybrau Diogel i Ysgolion.'

**Gwelliant 4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

'Yn cefnogi egwyddor goruchwyliaeth gan oedolion - yn ogystal â'r gyrrwr - ar gludiant i ysgolion a ddarperir gan yr awdurdodau lleol, ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i gynnal adolygiad o'r ddarpariaeth bresennol i'r perwyl hwnnw.'

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1:**
O blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2:**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3:**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4:**
O blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd y Gwelliant**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig:**
O blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y Cynnig**

**5.00pm**
**Dadl Fer - NDM1520 Jonathan Morgan (Canol De Cymru); Cynllun Trafnidiaeth Caerdydd**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.30pm**

******************

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

### Dogfennau a Osodwyd ar 1 Gorffennaf 2003

Memorandwm Cywiriadau - Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Llongau ac Awyrennau) (Cymru) 2003 - LD2170
Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Moch - LD2171
Memorandwm Cywiriadau - Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi)(Diwygio Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD2172
Memorandwm Cywiriadau - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Casglu a Gorfodi)(Rhestri Lleol) (Diwygio)(Cymru) 2003 - LD2173

### Adroddiadau Pwyllgor a Osodwyd ar 1 Gorffennaf 2003

LC713 - Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 2003 - LD2174
LC714 - Rheoliadau Lles Anifeiliaid a Ffermir (Cymru) (Diwygio) 2003 - LD2175
LC715 - Gorchymyn Deddf Addysg 2002 (Cychwyn Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD2176
LC716 - Rheoliadau Deddf Addysg 2002 (Darpariaethau Trosiannol a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2003 - LD2177
LC717 - Rheoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (Gwin) (Cymru) (Diwygio) 2003 - LD2178
LC718 - Rheoliadau Halogion mewn Bwyd (Cymru) 2003 - LD2179
LC719 - Gorchymyn Diogelwch Bwyd (Llongau ac Awyrennau) (Cymru) 2003 - LD2180
LC720 - Rheoliadau Addysg (Lleoedd a Gynorthwyir) (Mân Dreuliau) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD2181